

## Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 - Canllawiau yn ymwneud â Llety â Chymorth

### Ffurflen Ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Gwener 28 Ebrill 2017

### Dychwelyd y ffurflen hon

Anfonwch y ffurflen hon wedi'i llenwi i ni drwy e-bost i: [rentinghomes@wales.gsi.gov.uk](mailto:rentinghomes@wales.gsi.gov.uk)

Neu drwy'r post at:

Y Tîm Rhentu Cartrefi  
Yr Is-adran Polisi Tai  
Llawr 1af, Craidd y Gogledd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ.

Os ydych yn anfon eich ymateb drwy e-bost, nodwch **Canllawiau Llety â Chymorth** fel testun i'ch e-bost

Enw:	<input type="text" value="Hilary Watson"/>
E-bost:	<input type="text" value="hilarywatson@welshwomensaid.org.uk"/>
Rhif Ffôn:	<input type="text" value="02920541551"/>
Cyfeiriad:	<input type="text" value="Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd."/>
Cod Post:	<input type="text" value="CF23 8XE"/>
Sefydliad (os yw'n berthnasol)	<input type="text" value="Cymorth i Ferched Cymru"/>

### Cyhoeddi ymatebion

Gall ymatebion i gyhoeddiadau gael eu cyhoeddi – ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Fel arfer bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb, gan fod hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol.

Os byddai'n well gennych chi i'ch enw a'ch cyfeiriad beidio cael eu cyhoeddi, ticiwch yma

## Am Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod<sup>1</sup> a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Wedi ein sefydlu yn 1978, rydym yn sefydliad ymbarél sy'n cynrychioli ac yn cefnogi ffederasiwn cenedlaethol o 23 elusen annibynnol lleol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol atal cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod yng Nghymru, fel rhan o rwydwaith darpariaeth y DU. Mae'r gwasanaethau arbenigol hyn yn cynnwys ein haelodaeth graidd, ac maen nhw'n darparu llochesau achub bywyd, allgymorth, ac eiriolaeth a chefnogaeth gymunedol i oroeswyr cam-drin a thrais - menywod, dynion, plant, teuluoedd - ac yn cyflawni gwaith ataliol arloesol mewn cymunedau lleol. Rydym ni hefyd yn cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth *Byw Heb Ofn* a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam; a'r prosiect cenedlaethol *Mae Plant yn Bwysig* sydd yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu pant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a chyflwyno rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

### Cwestiynau ar Ran 2 Canllawiau Statudol ar Waharddiadau Dros Dro

#### Cwestiwn 1: Y Sawl Sy'n Gwneud y Penderfyniad

#### Ticiwch

A ydych yn cytuno gyda lefel y statws awgrymedig ar gyfer y person sy'n gwneud penderfyniad i wahardd?

Ydw X

Nac Ydw X

Os 'na', esboniwch eich ateb yn gryno.

Rydym yn cytuno y dylai'r penderfyniad i wahardd unigolyn dros dro gael ei wneud gan reolwr neu rywun sydd ar lefel uchel addas ac sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol y Llety â Chymorth. Fodd bynnag, nid statws y person sy'n gwneud y penderfyniad fel y cyfryw sy'n achosi pryder; yn hytrach, mae angen sicrhau arbenigedd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad hefyd drwy'r canllawiau statudol hyn.

Os yw'r person sy'n destun bygythiad gwahardd yn oroeswr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a/neu drais rhywiol (VAWDASV), mae'n hanfodol bod y rhai hynny gyda chyfrifoldeb rheoli gweithredol mewn darpariaeth tai â chymorth ledled Cymru, sydd ag awdurdod gwahardd dros dro, wedi derbyn hyfforddiant i nodi ac ymateb yn effeithiol i VAWDASV ('gofyn a gweithredu') a sut mae'n croestorri gyda chyfrifoldebau diogelu; fel arall dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniad sicrhau eu bod yn ymgynghori gydag arbenigwr o'r sector VAWDASV arbenigol, cyn y gwaharddiad.

Os na roddir sylw i hyn yn y canllawiau statudol neu'r canllawiau anstatudol, mae perygl y gallai goroeswyr a'u plant sydd eisoes yn hynod agored i niwed ac mewn perygl o, neu'n profi VAWDASV parhaus, wynebu digartrefedd dros dro, naill ai o ganlyniad i dactegau

<sup>1</sup> Cam-drin domestig yw'r enw a roddir pan fydd un person yn arfer rheolaeth, dros berson arall, mewn perthynas deuluol agos neu bersonol; gall y cam-drin fod yn rhywiol, corfforol, ariannol, emosiynol neu seicolegol. Trais yn erbyn menywod yw trais sydd wedi'i gyfeirio at fenywod oherwydd eu bod yn fenywod neu sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod, ac mae'n cynnwys cam-drin domestig, trais a cham-drin rhywiol, priodasau a orfodir, anffurfio organau rhywiol, ecsbloetio rhywiol gan gynnwys drwy fasnachu a'r diwydiant rhyw, yr hyn a elwir yn 'drais ar sail anrhydedd' ac aflonyddu rhywiol.

rheoli cymhellol y cam-driniwr neu ar adeg pan maen nhw mewn risg o niwed pellach a gyflawnir gan y troseddwr, y teulu neu aelodau o'r gymuned ehangach.

Dylid manteisio ar yr arbenigedd sydd mewn gwasanaethau VAWDASV arbenigol, os nad oes arbenigedd yn y ddarpariaeth tai â chymorth, i helpu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad i nodi p'un a yw gwaharddiad arfaethedig yn amhriodol, gan y gallai roi'r goroeswr mewn risg uchel iawn o niwed pellach am gyfnod y gwaharddiad ac o bosibl y tu hwnt. Gan fod y polisi hwn yn berthnasol i lochesi a thai â chymorth nad ydynt yn arbenigol sy'n cael eu defnyddio gan oroeswyr cam-drin yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae goroeswyr mewn perygl o gael eu gwahardd gan landlord tai â chymorth neu gyfatebol nad ydynt o reidrwydd yn deall cymhlethdodau a bygythiadau i fywyd a'r niwed a wynebir gan oroeswyr a'u plant.

Yn ogystal, pan fydd gwaharddiad yn cael ei wneud yn erbyn rhywun sy'n droseddwr wedi'i brofi neu'n droseddwr dan amheuaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'n hanfodol cydnabod hyn cyn gynted â phosibl fel y gellir asesu pan fydd darpariaethau'r gwaharddiad yn cael eu gwneud p'un a fydd camau gweithredu a gymerir i wahardd yr unigolyn yn cynyddu'r risg a berir i'r goroeswyr.

Er mwyn rhoi'r canllawiau ar waith yn effeithiol heb beryglu goroeswyr cam-drin, mae angen rhoi hyfforddiant i'r holl landlordiaid gyda hawliau gwahardd er mwyn iddynt allu nodi troseddwr a goroeswr VAWDASV. Dylai sefydliadau'r sector VAWDASV arbenigol ddarparu'r hyfforddiant hwn gyda rhaglenni hyfforddi achrededig, fel Gwasanaeth Hyfforddiant Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru.

<b>Cwestiwn 2: Atal Digartrefedd</b>	<b>Ticiwch</b>	
Ydych chi'n cytuno gyda'r camau gweithredu arfaethedig y gallai landlord eu cymryd i osgoi digartrefedd?	Ydy	Nac Ydw X

Os 'na', esboniwch eich ateb yn gryno.

Er y dylai landlord gymryd yr holl gamau lliniaru i atal digartrefedd, mae angen i opsiynau adleoli fod yn sensitif i anghenion cefnogi a diogelwch goroeswyr VAWDASV, a dylai hyn fod yn destun cynnwys gwasanaethau arbenigol VAWDASV.

Rydym yn cefnogi'r angen i ddarparwyr tai â chymorth wneud trefniadau dwyochrog yn rhanbarthol a fyddai'n galluogi goroeswyr sydd wedi'u gwahardd dros dro i gael llety gan landlord arall sy'n gallu bodloni eu hanghenion cefnogi. Dylai unrhyw achosion o wahardd goroeswyr dros dro o lochesi neu ddarpariaeth tai â chymorth eraill sicrhau bod eu hanghenion cefnogi yn parhau i gael eu bodloni drwy'r rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau cefnogi mewn llochesi. Lle mae angen a'i bod yn briodol gwneud hynny, mae'r rhwydwaith hwn yn ceisio sicrhau y gellir symud goroeswyr a'u plant rhwng llochesi neu eu hailgartrefu mewn llety addas arall.

Er mwyn lleihau'r perygl o wahardd goroeswyr o lochesi, mae angen rhoi model ariannu cynaliadwy ar waith yn effeithiol sydd yn bodloni anghenion goroeswyr gydag anfanteision lluosog sydd angen cefnogaeth mewn llochesi, fel bod gan wasanaethau'r gallu i fodloni anghenion cefnogi amrywiol a lluosog goroeswyr.

I liniaru yn erbyn y risg y gallai'r troseddwr ei beri i oroeswyr ac eraill pe byddant yn wynebu gwaharddiad dros dro, dylai'r canllawiau gydnabod y bydd angen cydweithredu effeithiol rhwng darparwyr tai â chymorth a'r system cyfiawnder troseddol/timau rheoli troseddwr a

Chadeiryddion cynadleddau asesu risg amlasiantaethol lleol (MARAC). Cyn gwahardd troseddwr hysbys o'u llety, dylid gwneud pob ymdrech i gynnal cynlluniau diogelwch amlasiantaethol ar gyfer goroeswyr, oherwydd fel arall gallant deimlo mwy o bwysau i roi llety i'r troseddwr sydd wedi'i wahardd a byddai hyn yn eu rhoi mewn perygl o niwed pellach.

<b>Cwestiwn 3: Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd</b>	<b>Ticiwch</b>	
A ydych yn cytuno gyda'r weithdrefn ar gyfer cynnal yr adolygiad 'gwersi a ddysgwyd'?	Ydw	Nac Ydw X

Os 'na', esboniwch eich ateb yn gryno.

Lle mae'r person yn oroeswr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac wedi'i wahardd gan landlord sector nad yw'n arbenigol, dylai eiriolwr neu weithiwr cefnogi'r goroeswr a/neu aelod o'r sector arbenigol fod yn rhan o'r 'adolygiad o wersi a ddysgwyd' er mwyn monitro p'un a oedd y camau a gymerwyd i geisio osgoi digartrefedd ac yna'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd yn briodol, o ystyried cymhlethdodau unigol sefyllfa'r goroeswr. O ystyried y pwysau cynyddol ar y sector arbenigol, dylid nodi fod y broses hon yn feichus ar ddarparwyr arbenigol bach sydd wedi dioddef bygythiadau i gyllid neu ostyngiadau mewn cyllid, er bod y broses yn hyrwyddo arfer da. Gellir disgwyl i'r pwysau hyn dyfu heb fodel ar gyfer ariannu cynaliadwy ar waith, oherwydd bod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cynyddu'r cyfleoedd i oroeswyr ddatgelu a manteisio ar lwybrau atgyfeirio clir a chyfeirio at gefnogaeth yn y sector arbenigol.

<b>Cwestiwn 4: Ffurflen Adolygu Gwersi a Ddysgwyd</b>	<b>Ticiwch</b>	
A ydych yn cytuno bod y ffurflen adolygu yn hawdd ei deall ac yn addas i'r diben?	Ydw	Nac Ydw X

Os 'na', esboniwch eich ateb yn gryno.

Er nad yw'r ffurflen yn caniatáu gwahardd mwy nag un deiliad contract, ni chyfeirir at hyn yn y canllawiau. Mae angen ystyried p'un a yw'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi arwain at y gwaharddiad yn deillio o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gyda phwyslais arbennig ar asesu p'un a yw ymddygiad rheoli a chymhellol yn ffactor sy'n cyfrannu. Gall yr ymddygiad sydd wedi arwain at y gwaharddiad fod o ganlyniad i'r rheolaeth neu gall fod yn ymddygiad sy'n ymddangos yn wrthgymdeithasol ond a gyflawnir i guddio tystiolaeth o gam-drin.

Yn ogystal â hynny, nid yw'r ffurflen a'r canllawiau yn cwmpasu'r posibilrwydd o wahardd dibynyddion fel plant dros dro hefyd pan fo oedolyn yn cael ei wahardd. Gallai nifer cynyddol o ddibynyddion ei gwneud hi'n anoddach dod o hyd i atebion dros dro addas o ran digartrefedd ar y stryd, gan ei bod hi'n dod yn fwyfwy anodd dod o hyd i lety dros dro priodol sy'n addas i'r nifer o bobl sydd wedi'u gwahardd, tra ei fod yn briodol i ddelio gydag achos y gwaharddiad gwreiddiol.

**Cwestiynau ar Ran 3**  
**Canllawiau ar gael caniatâd yr awdurdod lleol i ymestyn y cyfnod perthnasol**

Cwestiwn 5: Rôl y landlord	Ticiwch	
Ydych chi'n cytuno bod y weithdrefn y dylai'r landlord ei dilyn er mwyn ymestyn y cyfnod perthnasol wedi'i ddisgrifio'n glir?	Ydw	Nac Ydw X
<p>Os 'na', esboniwch eich ateb yn gryno.</p> <p>Nid yw'r weithdrefn sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno'r cais i ymestyn y 'cyfnod perthnasol' i'r Awdurdod Tai o leiaf 6 wythnos cyn diwedd y 'cyfnod perthnasol' yn ymarferol ar gyfer llochesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn aml bydd camau goroeswyr i symud ymlaen o lochesi wedi'u cynllunio, er y gall amgylchiadau newid oherwydd ffactorau allanol nas rhagwelwyd. Er enghraifft, gallai fod problemau gyda darpariaethau symud ymlaen sy'n achosi oedi i ddiwedd cyfnod aros goroeswr mewn lloches; newidiadau i'w mynediad at fudd-daliadau i dalu rhent yn ystod eu cyfnod yn aros mewn lloches; neu gallai ymddygiad y troseddwr effeithio ar eu hymddygiad eu hunain fel tenant yn y lloches.</p> <p>Gall landlord lloches ragweld na fyddai goroeswr bellach yn breswlydd erbyn yr adeg pan fydd angen rhoi'r cais yn ei le, neu fod y mater sy'n ysgogi'r landlord i ystyried gwneud cais i ymestyn y 'cyfnod perthnasol' yn dod yn broblem o fewn 6 wythnos olaf y cyfnod perthnasol yn unig, ac felly'n ei gwneud hi'n amhosibl ymestyn y 'cyfnod perthnasol'.</p> <p>Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell bod y cais ar gyfer ymestyn y 'cyfnod perthnasol' mewn tai â chymorth tymor byr fel gwasanaethau cefnogi mewn lloches yn llawer byrrach er mwyn gallu ei ddefnyddio'n ymarferol, gan nad yw'r cynnig cyfredol o gyflwyno'r cais i'r awdurdod tai chwe wythnos cyn diwedd y chwe mis cyntaf yn ymarferol yn y math penodol hwn o leoliad.</p>		
Cwestiwn 6: Rôl yr awdurdod tai lleol	Ticiwch	
Ydych chi'n cytuno bod rôl yr awdurdod tai lleol wrth ystyried cais i ymestyn wedi'i ddisgrifio'n glir?	Ydw X	Nac ydw
Os 'na', esboniwch eich ateb yn gryno.		
<p><b>Mae'r blwch isod wedi'i ddarparu ar gyfer unrhyw sylwadau pellach sydd gennych ar unrhyw un o'r dogfennau canllaw arfaethedig</b></p>		
<p>Mae angen i'r canllawiau hyn gyfeirio'n benodol at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ar hyn o bryd, nid yw wedi'i nodi'n glir sut mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i dai â chymorth, yn enwedig mewn perthynas â llety VAWDASV.</p> <p>Nid yw'r canllawiau'n cyfeirio at anghenion cefnogi penodol a gwahanol sy'n ymwneud â thai ar gyfer menywod a dynion, nid yw'n seiliedig ar dystiolaeth bod VAWDASV yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, ac nid yw'n cydnabod bod plant a phobl ifanc hefyd yn aros mewn tai â chymorth ac y bydd gwaharddiadau dros dro yn effeithio arnynt.</p> <p>Er enghraifft, dylid nodi bod goroeswyr sy'n cael cefnogaeth mewn lloches yn manteisio ar wasanaethau achub bywyd. Gallai gwaharddiad dros dro o eiddo heb unrhyw ddarpariaethau cefnogi cyfatebol, ychwanegol eu rhoi mewn perygl difrifol o niwed pellach gan eu camdriniwr/camdrinwyr, gan mai'r amser mwyaf peryglus yn aml yw'r flwyddyn wedi</p>		

i fenywod adael eu partner. Rhwng 1 Ionawr 2009 a 31 Rhagfyr 2015, gwyddom fod 200 o fenywod yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu lladd gan gynbartneriaid yn dilyn gwahanu; o'r menywod hyn, lladdwyd 34% yn ystod y mis cyntaf a 76% (152 o fenywod) yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dilyn gwahanu.<sup>2</sup> Lladdwyd llawer o'r menywod hyn cyn gynted ag y gwnaethon nhw ddechrau ar y broses o wahanu.<sup>3</sup> Gallai'r bygythiad o ddigartrefedd stryd posibl am gyfnod gwahardd o 48 awr yn dilyn achos roi goroeswr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn perygl enbyd o niwed difrifol neu angheuol. Mae'n bwysig nodi, er y bydd gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ymwybodol o'r perygl hwn, bod nifer o oroeswyr y troseddau hyn yn manteisio ar wasanaethau generig, ac efallai nad yw'r rhain yn sylweddoli'r gwir fygythiad i fywyd y gellid ei achosi'n anfwriadol drwy wahardd o safle neu symud tenant dros dro o un lleoliad i leoliad arall.

Pryder arall ynghylch y canllawiau yw eu bod yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer gwahardd unigolyn yn unig, er bod y ffurflen yn cwmpasu'r posibilrwydd o wahardd mwy nag un person (mwy nag un deiliad contract) ar yr un pryd. Er enghraifft, os oes plant dibynnol yn cael eu gwahardd dros dro oherwydd gweithredoedd y rhiant, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y canllawiau ac felly ni chyflwynir unrhyw ganllawiau i'r landlordiaid eu dilyn. Yn amlwg, mae dod o hyd i lety dros dro i fam a thri o blant yn mynd i gynnig llai o gyfleoedd i osgoi digartrefedd dros dro. Mae angen egluro yn y canllawiau a ydynt yn berthnasol i rieni sydd â phlant dibynnol (p'un a ydynt yn hyn neu'n iau na 18 mlwydd oed) ai peidio.

---

<sup>2</sup> D. Brennan, 'Femicide Census: profile of women killed by men', *Women's Aid*, 2016, <https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2017/01/The-Femicide-Census-Jan-2017.pdf>, (accessed 20 January 2017).

<sup>3</sup> Ibid.